How fair is Pembrokeshire?

Public sector bodies from across South West Wales are asking how fair is life in Pembrokeshire, and other counties in the region, in order to help them put together their Strategic Equality Plans for 2020 – 2024.

Strategic Equality Plans set out how public sector organisations will work together with each other, the voluntary sector and local people, to try to make life in communities in their areas fairer for everyone.

The organisations are interested to find out how people from different groups experience a range of things that contribute towards quality of life including education, health, access to care and support and information, transport, housing, work and rates of pay, crime and access to justice, influencing decisions, getting on together in the community, leisure and access to the countryside.

The different groups they are interested in hearing about are set out in the Equality Act of 2010 and include people of different ages, sexes, races, religions, abilities, marital status, sexual orientation and gender assignment, as well as those affected by pregnant or recent birth.

The public sector bodies working together to gather feedback from local communities include: local authorities in Pembrokeshire, Carmarthenshire, Ceredigion and Powys, Hywel Dda University and Powys Teaching Health Boards, Dyfed Powys Police Authority and the Dyfed Powys Police and Crime Commissioner, Mid and West Wales Fire & Rescue Authority, the Wales Ambulance Trust and Pembrokeshire Coast and Brecon Beacons National Park Authorities.

The organisations have decided to work together to gather feedback so that people are not asked the same questions by lots of different organisations. The information will be feed into the different organisations Strategic Equality Plans for 2020 – 2024, which will be published by Spring next year.

If you, or an organisation you are part of, would like to share information or give views on how different groups experience various aspects of life, you can do this by completing our online survey:

https://www.snapsurveys.com/wh/s.asp?k=155238706627

Surveys should be completed by **Friday 14th June 2019**.

OR

If you are part of a group that represents one or more of the equality groups listed above you can ask a representative of one of the public sector organisations to come and run a feedback session with you or your group may wish to run a feedback session by itself. Feedback sessions need to be run by the end of July. For further information about this please contact Sarah Worby, Corporate Communications Officer, Pembrokeshire County Council on 01437 775263 or sarah.worby@pembrokeshire.gov.uk

Pa mor deg yw Sir Benfro?

Mae cyrff sector cyhoeddus ar draws De Orllewin Cymru yn gofyn pa mor deg yw bywyd yn Sir Benfro, yn ogystal â siroedd eraill yn y rhanbarth, a hynny er mwyn eu helpu i lunio eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020 – 2024.

Mae Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn nodi sut y bydd sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cydweithio â'i gilydd, gyda'r Sector Gwirfoddol, a chyda phobl leol, i geisio gwneud bywyd mewn cymunedau yn eu hardaloedd yn decach i bawb.

Mae gan y sefydliadau ddiddordeb mewn canfod sut mae pobl o wahanol grwpiau yn profi amrywiaeth o bethau sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd, gan gynnwys: addysg; iechyd; mynediad i ofal, cymorth a gwybodaeth; trafnidiaeth; tai; gwaith a chyfraddau tâl; troseddu a mynediad at gyfiawnder; dylanwadu ar benderfyniadau; cyd-dynnu yn y gymuned; hamdden; a mynediad i gefn gwlad.

Mae'r gwahanol grwpiau sydd o ddiddordeb iddynt wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac maent yn cynnwys pobl o wahanol oedrannau, rhyw, hil, crefydd, galluoedd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol ac aseiniad rhyw, yn ogystal â'r rhai yr effeithir arnynt gan feichiogrwydd neu enedigaeth ddiweddar.

Mae'r cyrff sector cyhoeddus sy'n gweithio gyda'i gilydd i gasglu adborth gan gymunedau lleol yn cynnwys: awdurdodau lleol yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys; Byrddau Iechyd Addysg Powys a Phrifysgol Hywel Dda; Awdurdod Heddlu Dyfed Powys a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys; Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru; Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru; ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog.

Mae'r sefydliadau wedi penderfynu gweithio gyda'i gilydd i gasglu adborth er mwyn osgoi cael sawl sefydliad gwahanol yn gofyn yr un cwestiynau i bobl. Bydd y wybodaeth yn cael ei bwydo i Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol y sefydliadau gwahanol ar gyfer 2020 – 2024, sydd i'w cyhoeddi erbyn y Gwanwyn y flwyddyn nesaf.

Os hoffech chi, neu sefydliad yr ydych yn rhan ohono, rannu gwybodaeth neu roi barn ar sut mae gwahanol grwpiau'n profi gwahanol agweddau ar fywyd, gallwch wneud hyn trwy gwblhau ein harolwg arlein:
https://www.snapsurveys.com/wh/s.asp?k=155238706627
Dylid cwblhau'r arolygon erbyn dydd **Gwener 14 Mehefin 2019**.

NEU

Os ydych yn rhan o grŵp sy'n cynrychioli un neu fwy o'r grwpiau cydraddoldeb a restrir uchod, gallwch ofyn i gynrychiolydd un o'r sefydliadau sector cyhoeddus i ddod i gynnal sesiwn adborth gyda chi, neu efallai y bydd eich grŵp am gynnal sesiwn adborth eu hunain. Mae angen cynnal sesiynau adborth cyn diwedd mis Gorffennaf. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Sarah Worby, Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro ar 01437 775263 neu sarah.worby@pembrokeshire.gov.uk